

Mae'r Daflen Wybodaeth hon yn rhoi arweiniad ar y camau y dylai Colegau a Gwasanaethau eu cymryd i sicrhau diogelwch staff a myfyrwyr wrth dowio a defnyddio trelars ar fusnes sy'n ymwneud â'r Brifysgol. Mae'n ffurfio un o'r Taflenni Gwybodaeth yn y *Safon Polisi Diogelwch Gyrwyr a Cherbydau*.

Cefndir

Mae towio trelars yn gofyn am gymhwysedd, profiad, sgil a dealltwriaeth dda o'r peryglon, y gofynion a'r cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei dowio a sut. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i fodloni'r gofynion i sicrhau bod gweithgareddau towio yn cael eu cynnal yn ddiogel.

Egluro Pwysau Cerbydau

- **Pwysau heb lwyth:** Pwysau di-lwyth unrhyw gerbyd yw pwysau'r cerbyd pan nad yw'n cludo unrhyw deithwyr, nwyddau neu eitemau eraill. Mae'n cynnwys y corff a'r holl rannau a ddefnyddir fel rheol gyda'r cerbyd neu'r trelar pan gaiff ei ddefnyddio ar ffordd. Nid yw'n cynnwys pwysau'r tanwydd nac, os yw'n gerbyd trydan, y batris.
- **Uchafswm Mâs Awdurdodedig (MAM):** Dyma bwysau cerbyd neu drelar yn cynnwys y llwyth mwyaf y gellir ei gario'n ddiogel pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar y ffordd. Gelwir hyn hefyd yn bwysau gros cerbyd (GVW) neu'r pwysau mwyaf a ganiateir. Bydd yn cael ei restru yn llawlyfr y perchennog ac fel rheol fe'i dangosir ar blât neu sticer wedi'i osod ar y cerbyd. Gall y plât neu'r sticer hefyd ddangos pwysau gros llinyn (*gross train weight* - GTW), a elwir weithiau'n bwysau gros cyfunol (*gross combination weight* - GCW). Dyma gyfanswm pwysau'r uned tractor ynghyd â threlar a llwyth.
- **Lawr-blatio:** Os yw'n annhebygol y bydd cerbyd yn cael ei ddefnyddio ar ei bwysau mwyaf posibl, gellir ei 'lawr-blatio'. Mae hyn yn golygu bod pwysau is yn cael ei ddangos ar y plât / sticer sydd ynghlwm wrth y cerbyd.

Y Gyrrwr

Cyfrifoldeb pob Coleg / Gwasanaeth yw sicrhau cymhwysedd Gyrwyr sy'n towio trelars wrth yrru ar fusnes y Brifysgol. Rhaid i bob Coleg / Gwasanaeth gymeradwyo pob Gyrrwr a fydd yn towio neu ddefnyddio trelar - gweler *Taflen Wybodaeth DV1 Cymeradwyo'r Gyrrwr*. Mae'r broses hon yn cynnwys gwirio bod gan y Gyrrwr y categorïau trwydded yrru gofynnol, a all fod yn anodd, fel yr eglurir isod.

Categoriâu Trwydded Yrru

Mae gofynion trwydded yrru penodol yn gymwys wrth dowio cerbydau. Fodd bynnag, mae ceisio adnabod yr hyn sydd ei angen yn hynod gymhleth gan y gall amrywio, yn dibynnu ar oedran y gyrrwr, y dyddiad y cawsant eu trwydded yrru yn wreiddiol, y cerbyd sydd i'w ddefnyddio i dowio'r trelar, maint y trelar a phwysau'r llwyth i'w dowio. Dylid nodi y bydd angen hyfforddiant penodol ychwanegol mewn rhai amgylchiadau cyn y caniateir i yrrwr dowio.

Mae'r Asiantaeth Trwyddedu Cerbydau a Gyrru sy'n goruchwyllo trwyddedau gyrru wedi cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithio allan beth sydd ei angen, ac wedi datblygu adnodd defnyddiol 'cam wrth gam' ar-lein i ganfod pa ofynion trwydded yrru sy'n berthnasol.

Mae'n hollbwysig i Golegau / Gwasanaethau wirio'r ddolen hon cyn awdurdodi gyrrwyr i dowio.

<https://www.gov.uk/towing-rules>

Y Cerbyd Towio

Mae'n bwysig bod y cerbyd a ddefnyddir i dowio trelar yn ddigonol ar gyfer y dasg:

- Gwiriwch fod yr injan yn ddigon mawr i dowio'r trelar a'r llwyth.
- Gwiriwch fod brecio'r cerbyd yn ddigon pwerus i stopio'r cerbyd a'r trelar yn ddiogel.
- Gwiriwch nad yw Pwysau Gros y Trelar yn fwy na Gallu Towio'r cerbyd towio.



Bydd ychwanegu trelar wedi'i lwytho at gerbyd yn effeithio ar berfformiad y cerbyd. Gall cychwyn, yn enwedig ar fryniau, fod yn fwy llafurus; gall stopio gymryd mwy o amser ac mae mynd rownd corneli ac ar hyd troadau yn gofyn am ofal ychwanegol - rhaid ystyried y rhain i gyd yn ofalus wrth ddewis a llwytho (a thowio) trelar.

Y gwiriad pwysicaf yw'r terfyn towio a argymhellir gan y gwneuthurwr, y dylid fod wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr ac ar blât VIN y siasi. Er enghraifft: *efallai y bydd gan Ford (LWB) Transit gapasiti towio o 2500kg ar gyfer trelar â 'brêcs' a 750kg ar gyfer trelar 'heb frêcs'.*

Diogelwch Trelars

Er mwyn sicrhau gweithrediad diogel trelars rhaid i Golegau / Gwasanaethau wneud y gwiriadau canlynol:

- A yw'r pwysau gros sy'n cael ei dowio o fewn prif lwyth swyddogol y trelar a chyfanswm y terfyn towio uchaf a argymhellir gan wneuthurwr y cerbyd (gyda brêcs neu heb frêcs)?
- A yw'r llwyth wedi'i ddiogelu'n gywir?
- Os yw'r trelar yn llwythog, a yw'r llwyth wedi'i ddisbarthu'n gywir h.y. dim gormod neu rhy ychydig o bwysau yn y pen blaen?
- Ydy'r holl oleuadau heb eu difrodi ac yn gweithio'n gywir?
- A yw'r plwg a'r cebl 7-craidd heb eu difrodi?
- Ydy'r plât rhif cywir wedi'i osod? (rhif cofrestru ac arddull)?
- A yw'r cebl torri i ffwrdd neu'r cyplydd eilaidd heb eu ddifrodi ac wedi'i gysylltu'n gywir, i bwynt addas ar y bar towio neu'r cerbyd towio?
- A yw pwysau'r teiars yn gywir a'r holl deiars heb doriadau, chwydd a chyda gwadn digonol o 1.6mm o leiaf, (gan gynnwys y rhai sbâr)?
- A yw nytau / bolltau olwynion wedi'u tynhau i'r trorym cywir?
- Os oes angen, a yw'r gardiau olwynion mewn cyflwr boddhaol ac yn ddiogel?
- A yw'r trelar wedi'i gysylltu'n gywir â'r bêl dynnu neu'r pin?
- A yw uchder y cyplydd yn gywir, h.y. nid yw'r trwyn i lawr neu'r trwyn i fyny yn ormodol?

Gwiriadau Cyn Towio

- Gwiriwch fod y trelar yn lefel wrth ei gysylltu â'r cerbyd towio.
- Sicrhewch fod pwysau'r trwyn rhwng 50 a 100kg (oni bai bod y trelar yn ysgafn iawn).
- Sicrhewch fod pwysedd y teiars yn gywir gyda dyfnder gwadn o 1.6mm o leiaf.

- Gwiriwch fod yr olwyn joci, y sadwyr cornel / standiau codi wedi'u tynnu i fyny yn llwyr ac yn ddiogel.
- **Gwnewch wiriad terfynol i sicrhau bod llwythi, strapiau ac ati yn ddiogel ac na fyddant yn dod yn rhydd.**

Amllder Archwiliadau a Gwasanaethu

Bydd hyn yn dibynnu ar y math ac amllder y defnydd a'r cyngor a roddir gan y gwneuthurwr. Fel rhan o'r broses hon mae'n hanfodol cynnwys strapiau neu unrhyw offer arall a ddefnyddir i ddiogelu llwythi e.e. cortynnau bynji. Gallai canllaw amlinellol fod yn:

- Archwiliad mewnol gweledol wedi'i wneud cyn pob taith.
- Archwiliadau / gwasanaethu ffurfiol a wneir gan garej gymwys:
 - Ar ôl y 600 milltir cyntaf (1000 km) - hanfodol ar gyfer trelars newydd neu os gosodir leinin brêc neu geblau bwa newydd.
 - Bob 3000 milltir (5000 km) – bob tri mis ar gyfer trelars masnachol/diwydiannol a ddefnyddir yn helaeth, naill ai yn ôl y milltired maent wedi towio neu'r math o ddefnydd. Yn cynnwys trelars cychod.
 - Bob 6000 milltir (10,000 km) - yn flynyddol ar gyfer carafanau a threlars hamdden. Chwe mis ar gyfer trelars masnachol / diwydiannol - yn seiliedig ar ddefnydd "cyfartalog".
- Dylid cadw cofnodion o bob archwiliad a gwasanaethu ffurfiol.

Trelars Cychod: Cyngor Ychwanegol

Argymhellir nad yw bothau a brecioau yn cael eu trochi mewn dŵr, yn enwedig dŵr halen. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid dilyn y cyngor canlynol:

- PEIDIWCH â throchi pan fo'r both yn boeth h.y. yn syth ar ôl taith hir. Arhoswch nes bod y cydosodiad wedi oeri, fel arall bydd gwactod yn ffurfio, gan gynyddu faint o ddŵr all fynd i mewn.
- Cadwch amserau trochi mor isel â phosibl a PHEIDIWCH â gadael y trelar yn sefyll yn y dŵr ar ôl i'r cwch gael ei lansio.
- Ar ôl trochi mewn dŵr halen, dylai cydosodiad y both a'r trelar gael eu chwistrellu â dŵr ffres.
- Peidiwch â pharcio'r trelar am gyfnodau hir gyda'r brêc llaw ymlaen yn llawn, yn enwedig os yw'r both yn wlyb. Os oes angen, plociwch yr olwynion.
- Argymhellir bod trelars yn cael eu gwasanaethu'n fwy rheolaidd ac yn sicr o leiaf bob tri mis waeth beth fo'u milltired. Mae hyn yn cynnwys tynnu'r brêcs yn ddarnau ac ail-iro berynnau.
- Ni ellir iro bothau â berynnau unedol ac er eu bod yn fwy ymwrthol i ddŵr yn mynd i mewn, yn enwedig os caniateir iddynt oeri cyn trochi, NID ydynt yn gallu gwrthsefyll dŵr yn llwyr. Bydd trochi dro ar ôl tro mewn dŵr yn y pen draw yn arwain atynt yn methu.
- Yn gyffredinol nid yw ceblau Bowden yn cael eu hiro h.y. ffitiad iro, gan fod iro yn atal symudiad y cebl mewnol o fewn y casin allanol sydd wedi'i ddylunio'n arbennig a'i orchuddio. Gallai iro gormodol hefyd halogi leinin y brêcs gan eu gwneud yn aneffeithiol. Mae profiad yn dangos bod socian mewn olew tenau, e.e. WD40, o bryd i'w gilydd, yn enwedig dros y gaeaf, yn helpu.

Cadw Cofnodion

Rhaid i Golegau / Gwasanaethau gadw cofnodion o'r holl drelars y maent yn eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys manylion yswiriant a chofnodion o archwiliadau a gwasanaethau.